OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1639

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**Amodau Mewnforio Arbennig**

**11A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod amodau mewnforio arbennig mewn cysylltiad â mewnforion o drydydd gwledydd o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, gan roi sylw i'r sefyllfa o ran iechyd anifeiliaid yn y drydedd wlad neu yn y trydydd gwledydd dan sylw, a chânt at y diben hwnnw ddiwygio, addasu neu ddirymu unrhyw fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC(**2**).

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y paragraff hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol; ac

(c) yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru."

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).
(**3**) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

(a) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder—

"ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ("*the Official Controls Regulations*") yw Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau Gweithredu, y Rheoliadau Dirprwyedig a'r offerynnau statudol a wnaed oddi tano;";

(b) yn y diffiniad o "swyddog gorfodi", yn lle "orfodi Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "orfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol";

(c) yn y diffiniad o "deddfwriaeth berthnasol", yn lle "Ewropeaidd a domestig" rhodder "uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig".

(3) Yn rheoliad 4, hepgorer "yn y Deyrnas Unedig ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill".

(4) Yn rheoliadau 4, 5(1), 9(3), 11(1), 12(1) a 13, ym mhob lle y maent yn digwydd, yn lle "a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "â'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "neu'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ac yn lle "yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol".

(5) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "o Aelod-wladwriaeth arall";

(ii) yn is-baragraff (a), hepgorer y gair "gwlad";

(b) hepgorer paragraff (2).